**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

10 Mehefin 2019

Annwyl Aelod,

Hoffwn eich diweddaru ar raglen ddiwygio etholiadol Comisiwn y Cynulliad.

Gwyddoch fod cam cyntaf y rhaglen hon yn mynd rhagddi ar ffurf y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) sy'n cynnwys cynlluniau i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 ac i newid enw'r Cynulliad yn Senedd.

Rwy'n croesawu diddordeb brwd y pwyllgorau yn y ddeddfwriaeth hon ac rwy'n edrych ymlaen at weld eu hadroddiadau.

Fe gofiwch mai diben Cam 2 arfaethedig y rhaglen ddiwygio oedd i wneud y Cynulliad yn ddeddfwrfa mwy effeithiol, hygyrch ac amrywiol drwy gynyddu'r nifer o ACau a symud i system etholiadol amgen yn deillio o argymhellion y Panel Arbenigol dan gadeiryddiaeth Yr Athro Laura McAllister.

Mae'r Comisiwn wedi bod yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i wneud yr achos o blaid symud ymlaen gyda Cham 2.

Wrth i'r heriau sy'n wynebu capasiti'r Cynulliad ddwysáu, hyderwn fod yr achos o blaid cynyddu'r nifer o Aelodau wedi ei ddadlau'n llwyddiannus.

Serch hyn, mae'r mater o ddiwygio'r system etholiadol yn parhau i ddenu amrywiaeth barn, gydag un plaid eisoes wedi cadarnhau y byddai angen ymrwymiad maniffesto cyn cyflwyno newid o'r fath.

O ganlyniad, mae'r Comisiwn wedi cymryd y penderfyniad nad yw'n bosib deddfu ar Gam 2 y rhaglen ddiwygio yn ystod y Cynulliad hwn.


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Er hyn, bydd ein gwaith o archwilio'r materion ynghlwm a maint y Cynulliad a sut y dylid ethol Aelodau yn parhau, gyda'r bwriad o gynorthwyo'r ddadl gyhoeddus a phleidiau gwleidyddol wrth iddynt ystyried eu safbwyntiau ar y materion hyn.

Os hoffech drafod y rhaglen ddiwygio gyda'r Comisiwn, mae croeso i chi gysylltu gyda'r Tîm Trawsnewid Strategol ar newid.cyfansoddiadol@cynulliad.cymru.

Yn gywir,

Elin Jones AC
Llywydd